## <u>Atodiad A: rhan o'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol</u>

### Sefydlu Bwrdd Tref

Er mai'r awdurdod lleol yw'r corff atebol ar gyfer cyllid a chyflawni cynlluniau, mae Byrddau Tref yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Hirdymor, gan weithio'n agos â phobl leol.

Dylai cadeirydd annibynnol ar gyfer Cynllun Hirdymor Byrddau Tref gael ei wahodd gan yr awdurdod lleol, gan ystyried pwy sydd orau ar gyfer cynnull partneriaid ac sy'n unigolyn uchel ei barch yn y gymuned, gydag angerdd amlwg dros y lle. Dylid ymgysylltu â'r Aelod Seneddol lleol yn rhan o'r broses.

Dylid rhoi ystyriaeth i hyd daliadaeth y gadeiryddiaeth, gan ystyried natur y Cynllun Hirdymor yn cynnwys gweledigaeth 10 mlynedd, mae'n bosibl y byddai trefi'n dymuno ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth, drwy benodi un neu fwy o ddirprwy gadeiryddion, er enghraifft. Os oes gan dref Fwrdd Bargen Dref eisoes ar waith, neu strwythur tebyg o'r fath – er enghraifft, is-set briodol o Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol yn yr Alban – yr ydym yn annog defnyddio'r fforwm hwnnw i weithredu fel Bwrdd Tref er mwyn osgoi dyblygu diangen a chaniatáu trefi i symud yn gyflymach i lunio eu Cynllun Hirdymor. Os yw fforwm presennol yn mynd i gael defnydd gwahanol, mae'n ddyletswydd ar y cadeirydd, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, i sicrhau bod y bobl gywir yn dod yn rhan ohono er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r dref yn llwyr – mae'n bosibl y byddai angen penodi eraill ar gyfer hyn, os yw'n briodol.

Mae'n rhaid i gadeirydd Bwrdd Tref fod yn arweinydd cymunedol lleol neu'n berson busnes lleol. Dylai'r cadeirydd weithredu fel cefnogwr ar gyfer y dref a darparu arweinyddiaeth ar gyfer Bwrdd y Dref, gan sicrhau y'i harweinir gan y gymuned a'i wreiddio yn yr ardal leol. Gall fod yn unrhyw un sydd â rôl flaenllaw, er enghraifft:

- sefydliad elusennol lleol
- dyngarwr
- pennaeth Coleg Addysg Bellach
- cyfarwyddwr Bwrdd neu Ymddiriedolaeth y GIG

- cyfarwyddwr clwb pêl-droed.

Ni chaiff cynrychiolwyr etholedig – fel Aelodau o’r Senedd, Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd yr Alban neu gynghorwyr lleol – gadeirio Bwrdd Tref.

**Aelodaeth Bwrdd Tref**

Ar ôl ystyried a oes Bwrdd presennol addas y gellir ei ddefnyddio, neu fod angen sefydlu Bwrdd Tref newydd, dylai’r cadeirydd ymgysylltu â’r awdurdod lleol i ystyried a oes angen penodi mwy o bobl i Fwrdd y Dref. Yn yr un modd, gall y cadeirydd ddewis penodi dirprwy – ond nid yw hyn yn ofynnol.

Fel y digwydd wrth benodi’r cadeirydd, mae’n werth ystyried hyd yr aelodaeth wrth wahodd aelodau i ymuno â’r Bwrdd, ac a oes angen newid cyfansoddiad y Bwrdd yn ystod ei oes.

Dylai’r awdurdod lleol, neu sefydliad amgen fel grŵp cymunedol os yw’r cadeirydd a’r awdurdod lleol yn cytuno ar hynny, weithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer Bwrdd y Dref.

Y tu hwnt i’r gofynion ynglŷn â chynnwys rhai cynrychiolwyr etholedig ac uwch gynrychiolydd o’r heddlu, mae’r canllawiau hyn yn hollol anghyfarwyddol a bydd yr aelodaeth yn amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun lleol:

**1. Cynrychiolwyr seneddol**

Mae’n rhaid i Aelodau Seneddol perthnasol, er enghraifft yr Aelodau Seneddol hynny y mae eu hetholaethau o fewn ffin y dref, fod yn aelodau o Fwrdd y Dref. Efallai y bydd Cynghorau yng Nghymru a’r Alban yn dymuno gwahodd yr AS neu’r ASA lleol.

**2. Cynghorwyr lleol**

Mewn ardaloedd lle mae dwy haen o awdurdodau lleol, dylai bod un cynghorydd o bob haen o lywodraeth leol. Mewn awdurdodau unedol, dylai bod dau gynghorydd o’r awdurdod. Lle bo’n berthnasol i’r dref, efallai bydd y cadeirydd yn dymuno gwahodd cynghorwyr plwyf, cynghorwyr tref neu gynghorwyr cymuned, gan nodi y dylid cyfyngu ar gyfanswm y cynrychiolwyr etholedig er mwyn hybu arweinyddiaeth gymunedol.

**3. Uwch gynrychiolydd o'r heddlu**

Mae'n rhaid i uwch gynrychiolydd o'r heddlu fod ar Fyrddau Tref. Yng Nghymru a Lloegr, disgwylir mai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fydd hwn; fodd bynnag, yn amodol ar gytundeb y cadeirydd, gall uwch gynrychiolydd lleol o'r heddlu weithredu yn ei le. Yn yr Alban, efallai bydd y cadeirydd yn dymuno gwahodd uwch swyddog heddlu. Pan fo meiri awdurdodau cyfun yn arfer swyddogaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, disgwylir mai'r Maer neu'r Dirprwy Faer dros Blismona a Throseddu ddylai fod yn gynrychiolydd; fodd bynnag, yn amodol ar gytundeb gyda'r cadeirydd, gall uwch gynrychiolydd lleol o'r heddlu weithredu yn ei le. Pe bai Byrddau Tref yn teimlo eu bod angen mwy o gyfraniad gan yr heddlu, gan nodi'n benodol y gwahanol sgiliau a mewnbwn y gallai cynrychiolydd gweithredol eu darparu, yna gallant arfer eu doethineb i wahodd pwy bynnag y maent yn ei ystyried yn briodol i fod yn aelod o'r Bwrdd.

Dylid teilwra gweddill yr aelodaeth i gyd-destun lleol; dylai'r cadeirydd arfer ei ddoethineb yn hyn o beth, ond gallai gynnwys y canlynol:

**4. Partneriaid cymunedol, fel:**

- grwpiau cymunedol
- grwpiau ffydd
- elusennau lleol
- fforymau cymdogaeth
- grwpiau ieuenctid
- y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol neu Ryngwyneb y Trydydd Sector yn yr Alban.

**5. Busnesau lleol a mentrau cymdeithasol, fel:**

- cadeirydd neu aelodau bwrdd yr Ardal Gwella Busnes, lle mae'r rhain yn bodoli
- cyflogwyr lleol allweddol neu fuddsoddwyr yn y dref.

Dangoswyd bod busnesau llai a rhai cymunedol yn gallu cefnogi adfywio a gwella buddsoddiad ar lefel leol, ac mae gan berchnogion eiddo ran fawr yn y ffordd y rhoddir pwrpas newydd i drefi.

6. Sefydliadau diwylliannol, y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon, fel:

- cyfarwyddwyr clybiau chwaraeon lleol
- grwpiau treftadaeth lleol.

7. Asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau angori, fel:

- ysgolion, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach lleol
- asiantaethau perthnasol y llywodraeth ar gyfer yr ardal, er enghraifft Byrddau Gofal Integredig neu Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban.

Dylai Byrddau Tref ystyried maint yr aelodaeth a gellid cynnull gweithgorau llai i hwyluso ymgysylltiad ehangach yn themâu'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi. Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn gweithio gyda Byrddau Tref, gyda chefnogaeth yr awdurdodau lleol, gyda chyngor masnachol a chontractio i sicrhau gwerth am arian, yn seiliedig ar arferion gorau o Gronfeydd Ffyniant Bro blaenorol.